

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

Mai 1af, 2014

Presennol: Y Maer, Ivora Jones, Y Dirprwy Faer, Eifion Roberts, Dilys Evans, Dorothei Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones (*ddim yn bresennol yn y Cyfarfod Blynnyddol*), Carol Rowlands, Y Cyngorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw.

Ymddiheuriadau: Sharon Evans, , Alun Price, Islwyn Pritchard-Jones, Edith Roberts, John C Williams

Croesawyd yr Arolygydd Mark Armstrong i'r cyfarfod. Rhoddodd adroddiad ar y ddarpariaeth yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd ac mae'n amlwg fod cydweithio agos rhwng yr heddlu, y trefnwyr a'r cwmni rheoli trafndiaeth.

Amlinellodd achosion yn Y Bala dros y tair blynedd diwethaf a mynegodd pryder fod y nifer achosion wedi dangos cynnydd, er bod arwyddion fod pethau'n gwella erbyn hyn. Mae presenoldeb yr Heddlu yn Y Bala wedi cynyddu ac y mae 4 swyddog a 2 swyddog cymunedol yn barhaol yn Y Bala erbyn hyn a gobeithir lleoli swyddog arall yn fuan. Yn ychwanegol, mae ymweliadau cyson gan blismyn mewn ceir.

Diolchwyd yn gynnes iawn i'r Arolygydd Armstrong am ei barodrwydd i ddod i gyfarfod y Cyngor Tref ac am ei waith dygn yn sicrhau presenoldeb yr heddlu yn Y Bala. Mynegwyd hefyd werthfawrogiad o waith y swyddogion lleol a'r swyddogion cymunedol.

1. Wrth groesawu pawb i'r cyfarfod, diolchodd Mrs Ivora Jones am y fraint a'r anrhydedd o gael ei hethol yn Faer ar Gyngor Tref Y Bala. Talodd deyrnged hefyd i waith Mrs Dorothei Evans y cyn-Faer a mynegodd ei balchder fod Mr Eifion Roberts wedi ei ddewis yn Ddirprwy Faer. Llongyfarchwyd Cyngorydd Dilwyn Morgan ar gael ei ddewis yn Ddirprwy Gadeirydd Cyngor Gwynedd. Hefyd llongyfarchwyd Eifion Roberts ar ei ddyrchafiad diweddar i swydd Cydlynnydd Rhaglenni Proffesiynol Gogledd Cymru, secondiad rhan amser am ddeunaw mis i Lywodraeth Cymru. Dymunwyd yn dda i Eluned Jones ar ei hymddeoliad diweddar.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau buddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ebrill 3ydd, 2014.

5. Materion y Cyngorydd Sir:

Arwyddwyd.....(Maer).....(Clerc) **1**

Mae'r Cyngorydd Dilwyn Morgan yn parhau i geisio sefydlu perchnogaeth y Gofeb Goffa a chofeb Tom Ellis; addawodd ceisio cael datrasiad i broblem adfer wal y Domen. **Gweithredu: Dilwyn Morgan**

Mae wedi derbyn sylwadau am gŵn yn aflonyddu ar drigolion ym Mro Eryl ac mae swyddogion y Cyngor yn gweithredu.

6. Materion lleol y Cyngorwyr Tref:

Plac Cyngor Tref Y Bala – awgrymwyd trafod gyda grŵp busnes Ysgol y Berwyn i gynhyrchu plac deniadol. Yr ail awgrym a gafwyd oedd ceisio un llechen. **Gweithredu: Clerc**

Roedd pryder yn parhau am sbwriel ar lan y llyn o dan lwybr Ro Wen. **Gweithredu: Clerc**

Cytunwyd i holi am gost plannu blodau yn y tybiau **Gweithredu: Dilys Evans**

7. Materion Cynllunio:

- i. Cymeradwywyd cais NP5/53/527, sef adeiladu estyniad deulawr ar ochr Doldderwen, 8 Cae Gadlas, Y Bala
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd
 - i osod ffenestri to ym Meirion House, 28 Heol Tegid
 - adeiladu estyniad i 19 Craig y Fron
 - adeiladu estyniad i 7 Maes Treflyn
 - gwneud newidiadau mewnol yn Henblas, 24 Stryd Fawr

8. Materion Cyllid

- i. Derbyniwyd Cofnodion Is Bwyllgor Cyllid 16/4/14 a chytunwyd i ddau berson allan o 3 arwyddo sieciau (Ivora Jones, Dilys Evans, Lis Puw) **Gweithredu: Clerc**
- ii. Ystyriwyd materion Yswiriant a chytunwyd i'r is-bwyllgor ddod i benderfyniad ar gynnig cwmni Yswiriant. **Gweithredu: is bwyllgor cyllid**
- iii. Derbyniwyd taliad cyntaf y Praesept i goffrau'r Cyngor (£8250)
- iv. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis:
 - a. Hill & Roberts £120
 - b. ôl-daliad i Partneriaeth Penllyn am ad-daliad TAW'r llynedd (£853.41)
 - c. derbyniwyd £17,546.26 i goffrau'r Cyngor, a chytunwyd ei drosglwyddo i Bartneriaeth Penllyn
 - d. cyflog y Clerc am fis Ebrill: £331.35 (PAYE wedi ei dynnu)
 - e. Cytunwyd i dalu anfoneb Y Cyfnod (hysbyseb Nadolig £15) o Gronfa'r Maer.
 - f. Cytunwyd i drosglwyddo £500 i gronfa'r Maer

9. Gohebiaeth

- 1) Llywodraeth Cymru: derbyniwyd gwybodaeth nad oes bellach angen mwy nag un i arwyddo sieciau; derbyn gwybodaeth am adroddiad ar drethi ail gartrefi:

<http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/council-tax-second-homes/?status=closed&lang=en>

2) Cyngor Gwynedd:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am gau'r Stryd Fawr adeg ffair 14/5/14 a 25/10/14
- ii. Goleuadau ar y Coed – gan fod angen i'r anfonebau fod mewn erbyn canol mis Mai, cytunwyd i archebu gwerth y grant o oleuadau (Cyngorydd Dilwyn Morgan i wirio faint yn union yw gwerth y grant). Adroddodd Carol Rowlands y byddai'r Gwasanaeth Tân yn barod i fod o gymorth i osod oleuadau ar y coed. **Gweithredu: Clerc, Dilwyn Morgan**
- iii. Ystyriwyd llythyr John Wyn Williams parthed Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gyda Môn; mae'n croesawu unrhyw dystiolaeth o anghenion cyn diwedd Mehefin, a bydd ymgynghoriad ffurfiol ar y Cynllun yn dechrau ar ddiwedd y flwyddyn hon. Cytunwyd nad oes angen gwneud arolwg lleol o anghenion gan nad ydyw'r Bala yn rhan o Gynllun Datblygu Gwynedd a Môn. **Gweithredu: Clerc**

3) Un Llais Cymru: Tynnwyd sylw at yr arolwg o waith Llywodraeth Cymru ar reoli adnoddau naturiol <<https://www.surveymonkey.com/s/arolwg-nrm-1>> a fydd yn dod i ben ddydd Mercher 16 Ebrill. Cytunwyd i gefnogi'r hyfforddiant i Glercod 15/5/14 yn Llandudno (£59+ TAW a chostau teithio) gan rannu'r gost gyda Chyngor Cymuned Llanuwchllyn. **Gweithredu: Clerc**

4) Heddlu: Derbyniwyd gwybodaeth e-bost am Ymgyrch Darwen - sef ymgyrch sy'n anelu lleihau nifer y marwolaethau ac anafiadau difrifol yn ymwneud â beicwyr modur ar ffyrdd Gogledd Cymru.

5) Eraill

- i. Ystyriwyd cwyn am sŵn yn y stryd gan un o westeion yn y Llew Gwyn yn ddiweddar. Roedd y mater wedi ei drafod gyda'r heddlu ac mae'r sefyllfa wedi gwella erbyn hyn.
- ii. Derbyniwyd manylion am noson Parc Cenedlaethol Eryri 21/5/14.
- iii. Derbyniwyd llythyr o ddiolch am rodd i Glwb Pêl-droed Ieuenctid Y Bala.
- iv. Gwahoddiad i Noson Agored Glan-Llyn .
- v. Derbyniwyd gwybodaeth am faneri'r Stryd Fawr.

10. Asedau'r Cyngor – cytunodd Eifion Roberts i fonitro eu cyflwr y mis hwn.

11. Gwefan – Derbyniwyd awgrymiadau ar yr hyn i'w gynnwys ar wefan y Cyngor (canllaw Un Llais Cymru): **Gweithredu: Clerc**

Cyffredinol (Lefel sylfaenol):

- i. *Gwybodaeth am gysylltu gyda'r Clerc - ffôn ac e-bost*
- ii. *Cyflwyniad i'r dref a'r gymuned*
- iii. *Ffurflen ymholiad cyffredinol fel bo'r gymuned leol yn gallu gwneud ymholiad*
- iv. *Cysylltiadau defnyddiol i wefannau neu rifau ffôn defnyddiol ar gyfer gwasanaethau brys a lleol*

- v. Gwybodaeth gymunedol gyffredinol - meddygol, addysgiadol, gwirfoddol, crefyddol a busnes
- vi. Ymwrthodiad gwefan (disclaimer)
- vii. OPSIWN: tudalen busnesau lleol - i gynhyrchu incwm i gynnal y wefan

Penodol:

- i. Cysylltu gyda Chynghorwyr
- ii. Agenda a Chofnodion prif gyfarfodydd
- iii. Gwybodaeth Cynllunio
- iv. Adroddiadau a chyfrifon blynyddol
- v. Cylchlythyron
- vi. Dogfennau strategol, gan gynnwys ffurflen gais am gymorth ariannol
- vii. Cysylltiadau gwe i lefelau eraill o lywodraethu
- viii. Manylion Rhyddid Gwybodaeth

Gellir hefyd rhoi cynnwys ar lefel uwch e.e. blog, pleidleisio ar lein, tudalennau ar gyfer Cynghorwyr i'w darllen yn unig, y gallu i amrywio maint ffont, porwr y wefan, map i'r wefan, holiaduron ar-lein

12. Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad gan y cynrychiolwyr/cydlynnydd.